

## ADNODDAU ADDOLI

- **Cewch oedfa trwy ddarllediad ar wefan [www.youtube.com](http://www.youtube.com) am 10.30 bob bore Sul.** Mae'r cyswllt i'ch cyfeirio i'r dudalen briodol yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan [www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com) (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Mae DVD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwyllo a gwrando ar recordiad o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael DVD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwrando ar recordiad sain o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael CD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae taflen o'r gwasanaeth ar gael i chi ei ddarllen.** Os hoffech dderbyn copi papur o'r gwasanaeth, rhowch wybod i Mair. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg. Bydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.
- **Ysgol Sul ar-lein.** Mae Andras a Heledd Iago, Bro Dinbych yn cynnal ysgol Sul ar Zoom am 10.30 ar fore Sul. Ewch i dudalen Facebook Bro Dinbych er mwyn ymuno â nhw.

## ADNODDAU DYSGU

- **Ar gyfer rhieni plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael ar ebost neu ar bapur.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.

Cewch adnoddau eraill o bob math ar wefan [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru).

## LLAIS BRO ALED

Bydd Llais Bro Aled yn parhau i gael ei gyhoeddi bob pythefnos. Cofiwch adael i ni wybod am unrhyw un sydd mewn profedigaeth, yn yr ysbyty neu ar achlysur datliad arbennig.

## BUGEILIO

Dim ond mewn amgylchiadau argyfyngus mae ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb yn digwydd bellach. Ond wrth gwrs, mae gofal bugeiliol yn parhau trwy gyfrwng y ffôn. Cofiwch hefyd bod cyd-aelodau, blaenoriaid, Rhodri a Mair yn barod iawn i sgwrsio hefo chi os ydach chi dymuno'n ffonio ni.

# Llais Bro Aled



*Dydd Sul, 17 Mai 2020*

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Roedd o'n bownd o ddigwydd ar ryw bwynt doedd?! Wedi nifer o wythnosau ohonom yn clywed gwleidyddion o bob lliw yn datgan yr un negeseuon, yr wythnos hon mae'r argyfwng COVID 19 wedi troi'n wleidyddol. Ac nid pleidiau sy'n anghytuno â'i gilydd bellach ond llywodraethau'r gwahanol wledydd sy'n rhan o'r Deyrnas Unedig. Mae'r cyfan wedi arwain at ddryswch i rai, a chwestiynau dyrys fel pwy yn union ydym ni i fod i wrando arnynt? Ac yng nghanol yr holl ymrafael dros y penwythnos fe wnaeth Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru ddatganiad oedd ar yr wyneb yn swnio'n ddoniol o syml – os ydych yng Nghymru, cyfraith Cymru sy'n weithredol! Wedi meddwl ymhellach am y mater mae'r holl sefyllfa wedi dangos mor bwysig yn ein bywydau yw awdurdod, gofal ac ymddiriedaeth.

I ddechrau arni, mae'r cwestiwn o bwy i wrando arnynt yn dibynnu ar eu hawdurdod – oes gan Lywodraeth Cymru'r hawl i gadw ysgolion ar gau er bod ysgolion Lloegr ar agor? Oes – gan fod addysg yn fater wedi'i ddatganoli, felly dylai athrawon a rhieni Cymru wrando ar Ysgrifennydd Addysg Cymru! Ond beth sydd gan hyn i'w wneud â ffydd y Cristion? Rhaid i ni gofio, hyd yn oed yng nghanol pryderon a dryswch y cyfnod hwn, nad yw awdurdod ein Tad yn y nefoedd wedi lleihau dim. Er ein bod ni'n gallu teimlo fel nad oes unrhyw fath o drefn ar ein bywydau, mae'r Arglwydd Dduw yn parhau i oruwchlywodraethu dros bopeth. Ac os yw llywodraeth Cymru yn gallu hawlio awdurdod dros yr hyn sy'n digwydd yma, cofiwn fod awdurdod Iesu Grist yn ddiderfyn gan iddo ddweud yn Mathew 28:18 – “Rhoddwyd i mi... bob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear.” Dyma anogaeth i ni felly i wrando ar Air ein Duw yn ofalus, a bod yn barod i ufuddhau i Grist yn frwd ac yn hyderus. Gallwn ufuddhau yn hyderus oherwydd ein bod yn gwybod o'r Beibl bod y Duw sy'n llywodraethu hefyd â gofal arbennig dros ei bobl, y rhai y mae'n eu caru. ‘Bwriwch eich holl bryder arno ef, oherwydd y mae gofal ganddo amdanoch.’ (1 Pedr 5:8)

Yn y pen draw, bydd ymateb pobl i'r naill brif weinidog neu'r llall yn dweud llawer am eu safbwyntiau gwleidyddol! Rydym mwy na thebyg am gefnogi penderfyniad y gwleidyddion hynny yr ydym yn ymddiried ynddynt i edrych ar ôl ein buddiannau. Beth amdanom ni? Yng nghanol y gofid, yr ansicrwydd a'r tor-calon – ydym ni'n ymddiried nad oes neb â mwy o ofal drosom na'r Duw sydd wedi dod atom yn Iesu Grist?

Mewn democratiaeth mae'n naturiol i'r boblogaeth fod yn amheus o lywodraethau bob hyn a hyn. Byddwn yn cwestiynu eu cymhelliad wrth wneud penderfyniadau dadleuol, ac yn feirniadol o'r ffordd y maent yn defnyddio'u grym a'u hawdurdod. Ond pan edrychwn ni ar Iesu, gwelwn gyfuniad godidog o awdurdod, gofal a gostyngedd. Gwelwn Frenin Nef wedi darostwng ei hun i'r eithaf gan farw ar y groes er mwyn achub eraill a'u rhyddhau o dywyllwch (Colosiaid 1:13). Wrth i ni barhau i wynebu'r cyfnod anodd hwn, gadewch i ni fod yn raslon tuag at ein gwleidyddion, yn effro i'n cyfrifoldebau gan ystyried anghenion eraill, ac yn fwy na dim gadewch i ni ymddiried yn llwyr yn ein Harglwydd Iesu.

Nid er ei fwyn ei hunan  
y daeth i lawr o'r ne' ;  
ei roi ei hun yn aberth  
dros eraill wnaeth efe. (Caneuon Ffydd 721)

*Rhodri*

## Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newydd yr wythnos ddiwethaf am farwolaeth Mr Lloyd Jones (Groes). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod, Maria a hefyd eu plant – Ann, Huw a Dewi, a gweddill y teulu yn eu profedigaeth o golli un mor annwyl a charedig. Gweddiwn y byddant fel teulu yn adnabod holl ddaioni Duw yn gwarchod drostynt dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf hyn.

Anfonwn ein cofion at Eirlys Owen (Llanefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd. Hyderwn y caiff adnabod holl dangnefedd Duw yn gwarchod drosti ac y bydd yn teimlo'n well yn fuan iawn. Treuliodd Brychan Edwards (Groes) rai dyddiau digon pryderus yno hefyd ond da clywed ei fod bellach wedi cael dod adref. Dymunwn wellhad llwyr a buan iawn i tithau hefyd Brychan.

Gobeithio bod y gweddill ohonoch chi yn cadw'n iach a'ch bod, er y cyfyngiadau, yn profi daioni'r Arglwydd yn eich amgylchynu ac yn eich cynnal yn eich angen.

## Ydach chi'n defnyddio e-bost?

Diolch i'r rhai ohonoch sydd eisoes wedi cysylltu. Os oes mwy ohonoch yn defnyddio e-bost a'ch bod yn fodlon inni anfon Llais Bro Aled ac unrhyw wybodaeth neu adnoddau eraill i chi ar e-bost, wnewch chi anfon neges i [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) os gwelwch yn dda?

## Cymorth Cristnogol

Ym mis Mai bob blwyddyn bydd nifer ohonoch wedi arfer cymryd rhan mewn gweithgareddau i godi arian i Gymorth Cristnogol, ond wrth gwrs, o dan y cyfyngiadau yr ydym yn byw ynddyn nhw ar hyn o bryd, ni fu'r gweithgarwch arferol yn bosibl. Er hynny, mae Cymorth Cristnogol yn dyfalbarhau gyda'r gwaith o gefnogi eraill ac mae ganddyn nhw gynlluniau amgen mewn lle i ganiatáu i bobl allu cymryd rhan mewn ffyrdd gwahanol a chreadigol. Gobeithir y daw cyfle i gynnal y gweithgareddau arferol yn yr hydref, ond mae cyfle inni ymuno mewn gweithgareddau ar lein am y tro.

Er ein bod ni'n gweld y cyfnod yma'n un anodd, mi fedrwn chi fod yn siŵr bod gwledydd ar draws y byd yn cael problemau hyd yn oed yn fwy hefo tlodi a diffyg gwladwriaeth les fel sydd ganddon ni i'n cynorthwyo. Rydan ni'n gymdogion ymhell ac agos sy'n mynd drwy'r pandemig Coronafeirws gyda'n gilydd – cymdogion mewn gwersylloedd ffoaduriaid ac mewn amgylchiadau byw cyfyng, cymdogion heb gyfleusterau digonol i olchi dwylo, cymdogion sy'n wynebu effeithiau dinistriol Coronafeirws gyda llai fyth o adnoddau meddygol na'r hyn yr ydym ninnau wedi brwydro i'w cael yn y wlad yma.

Felly, os dymunwch gyfrannu tuag at waith Cymorth Cristnogol, gallwch wneud hynny ar-lein trwy'r wefan: [caweek.org/payin](http://caweek.org/payin) neu gallwch anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', ac fe wnawn ninnau dalu'r arian dros y we ar eich rhan.

**Os am gyfrannu trwy'r Ofalaeth** a chan fod rhai ohonoch hefyd yn garedig iawn yn anfon arian i'r elusennau eraill y bu inni gyfeirio atynt yn y rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled (Tarian Cymru, Baby Basics Dyffryn Clwyd a Banc Bwyd Dyffryn Clwyd), **cofiwch nodi enw'r elusen y dymunwch ei chefnogi ar gefn y siec, os gwelwch yn dda.**

Diolch o galon i chi am eich haelioni tuag at rai sy'n llai ffodus na ni. Gweddiwn gyda phobl Cymru i ymladd am fyd sy'n rhydd o dlodi ac anghyfiawnder.

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (27<sup>ain</sup>), os gwelwch yn dda.